



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Llun, 27 Ionawr 2020 am 10.00 am ym Ystafell Bwllgor 1, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd E Griffiths Y Cyngorydd S Rees

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms A Browning, Pennaeth y Gwasanaeth
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Mrs C Tyler, Swyddog Datblygu Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant
Ms K Webster, Dirprwy Seicolegydd Addysg
Ms M Davies - TGP
Ms S Burford - Consortiwm Calolbarth y De

32 Cyhoeddiad gan y Cadeirydd

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees i'w chyfarfod cyntaf o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ac i hysbysu'r Aelodau, yn dilyn newidiadau i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd, fod Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser wedi'i phenodi'n Is-Gadeirydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

33 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen a J. James.

34 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees ddatgan buddiant personol ynglŷn ag Eitem 7 ar yr agenda, 'Rwy'n aelod o banel y Gogledd'.

35 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2019 yn rhai cywir.

Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG)

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, cyflwynodd Arweinydd Rhanbarthol Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) i Blant sy'n Derbyn Gofal Consortiwm Canolbarth y De drosolwg o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cafodd yr aelodau wybod bod y grant yn parhau i gael ei reoli'n ganolog gan Gonsortiwm Canolbarth y De (CSC) a bod Cyfarwyddwyr Addysg pob awdurdod lleol wedi cytuno ar flaenoriaethau allweddol i wella'r cyfleoedd addysgol i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Cyflwynodd yr Arweinydd Rhanbarthol wybodaeth am y Model Cenedlaethol a chanlyniadau ac amcanion y Grant Amddifadedd Disgyblion i'r Bwrdd, gan egluro mai nod y prosiectau yw gwella cyfleoedd o fewn y cwricwlwm i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, sy'n effeithio ar y meysydd canlynol:

- Gwella cyflawniad/cyrhaeddiad;
- Gwella presenoldeb; a
- Lleihau achosion o wahardd disgyblion.

Soniodd yr Arweinydd Rhanbarthol am weledigaeth Consortiwm Canolbarth y De, sef bod gan bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal yr hawl i ddarpariaeth a chefnogaeth i'w alluogi i gyrraedd ei botensial. Siaradodd am y flaenoriaeth allweddol, sef lleihau gwaharddiadau, sy'n aml yn arwain at broblemau mwy yn y dyfodol; a'r angen i athrawon ddeall y rhesymau y tu ôl i ymddygiad y plentyn.

O ran y datblygiadau, cyflwynodd yr Arweinydd Rhanbarthol y gwahanol feysydd hyfforddi sydd wedi bod yn llwyddiannus ar draws y clystyrau. Roedd y rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, therapi chwarae a therapi Lego, hyfforddiant trawma, hyfforddiant Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol/Thrive, hyfforddiant ar sail perthnasau, a hyfforddiant am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a materion ymlyniad.

Bu trafodaethau ynghylch Ysgolion sy'n Ystyriol o Blant sy'n Derbyn Gofal, gyda'r Arweinydd Rhanbarthol yn egluro pa mor bwysig yw hi bod pob ysgol yn dod yn ystyriol o Blant sy'n Derbyn Gofal er mwyn paratoi rhag ofn bydd person ifanc sy'n agored i niwed yn mynychu'r ysgol yn y dyfodol. Roedd yr aelodau'n falch o glywed am enghreifftiau o ysgolion oedd wedi newid yn gadarnhaol o ganlyniad i'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Gofynnodd un Aelod sawl un o ysgolion RhCT oedd wedi cyflawni Marc Ansawdd Ysgolion sy'n Ystyrlon o Blant sy'n Derbyn Gofal? Teimlai y byddai'n fuddiol i bob ysgol ei gyflawni. Cafodd yr Aelod wybod, hyd yma, bod 14 o ysgolion RhCT wedi cyflawni'r Marc Ansawdd, gyda 5 ysgol yn ennill gwobrau aur a 9 ysgol yn ennill gwobrau platinwm. Bydd 12 ysgol arall o fewn RhCT yn ymgymryd â'r Marc Ansawdd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20. Er bod y swyddogion yn cytuno â'r Aelod bod cyrraedd y Marc Ansawdd yn flaenoriaeth, fe wnaethon nhw egluro ei fod yn gyfrifoldeb ar yr ysgolion i'w cyflwyno'u hunain ar gyfer y marc a'i fod yn cynnwys proses gymhleth a thri cham dros gyfnod o amser. Serch hynny, cafodd yr Aelodau eu sicrhau bod llawer o ysgolion yn cymryd rhan yn y broses hyfforddi gychwynol, sydd wedi arwain at ganlyniadau dysgu cadarnhaol.

Roedd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i

Blant yn falch o nodi bod yr uchelgeisiau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn gyson ymhob man a siaradodd am yr angen i gynyddu nifer y plant sy'n cyrraedd lefel 2 ac uwch o fewn RhCT.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd Rhanbarthol am y cyflwyniad a **PHENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r diweddariad.

37 Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal – Gwerthusiad o'r Model Clwstwr Ysgolion yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19

Cyflwynodd Dirprwy Flaen Swyddog – Seicolegydd Addysg ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar werthuso'r model clwstwr ysgolion ar gyfer cyllid Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 yn Rhondda Cynon Taf.

Gan ymhelaethu ar yr eitem flaenorol, esboniodd y swyddog mai'r dyraniad grant cynllun clwstwr ar gyfer RhCT yn 2018/19 oedd £366,686 a £357,893 yn 2019/20. Dywedodd fod sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n gywir yn holl bwysig. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa ei fod yn ofynnol i ysgolion ar hyd rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De gyflwyno cynigion clwstwr i gael mynediad i'r Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal a bod y cynigion yn cael eu hasesu ar y sail bod modd iddyn nhw wella'r cyfleoedd o fewn y cwricwlwm i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, a fyddai yna'n effeithio ar y prif flaenoriaethau a gytunwyd. Cyfeiriwyd yr aelodau at Atodiad 4, lle amlinellir enghraifft o gais am gynnig clwstwr.

Dysgodd yr aelodau, fel rhan o Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal, fod gan y Consortiwm hefyd gronfa fwrariaeth i sicrhau bod modd i Garfannau Plant mewn Addysg sy'n Derbyn Gofal yr Awdurdod Lleol ymateb i anghenion yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar ymgynghoriad â Charfan Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod RhCT wedi canolbwyntio ar gefnogi ymgysylltiad â chyfleoedd addysgol priodol a'i fod wedi dyrannu £42,592 i gefnogi datblygiad dulliau therapiwtig trwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol i garfan Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal.

(Nodyn: Am 11am, cafodd y cyfarfod ei ohirio er mwyn i'r Cyngor gynnal munud o dawelwch ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust, i fyfyrion ar yr erchyllterau a ddigwyddodd 75 mlynedd yn ôl. Am 11:10 am, fe wnaeth y cyfarfod ailymgynnull.)

Bu trafodaethau ynghylch y cyfleoedd hyfforddi sy'n cael eu darparu gan Gonsortiwm Canolbarth y De, gyda'r Aelodau'n cydnabod eu bod wedi cael derbyniad da, gyda llawer o'r cyrsiau'n llawn. Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar bwysigrwydd gwella'r garfan er mwyn cefnogi lles emosiynol pobl ifainc ac roedden nhw'n falch o nodi bod 236 o'r cynrychiolwyr a fynychodd hyfforddiant Consortiwm Canolbarth y De yn dod o ysgolion RhCT neu'n staff o fewn yr Awdurdod Lleol.

Manteisiodd y swyddog ar y cyfle i roi gwybod i'r Aelodau am lwyddiant y sioeau teithiol, sy'n caniatáu i'r clystyrau o wahanol awdurdodau lleol rannu arfer da a'u profiadau gwahanol. Roedd yr aelodau'n falch o glywed am y llwyddiannau hyn, gan nodi ei fod yn anodd mesur deilliannau meddal.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad manwl a

PHENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Derbyn adroddiad pellach i werthuso model clwstwr Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer 2019/20.

38 Gweithredu canfyddiadau'r Arolwg 'Bright Spots'

Fe wnaeth Rheolwr Datblygu Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant ddiweddarau'r Aelodau am y cynnydd o ran gweithredu'r ymrwymadau allweddol gafodd eu gwneud i blant a phobl ifainc i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r Arolwg Bright Spots.

Dysgodd yr aelodau fod Gwasanaethau i Blant RhCT wedi cefnogi plant sy'n derbyn gofal i gwblhau'r Arolwg Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di yn 2018. Cafodd yr arolwg ei ddatblygu drwy'r Rhaglen Bright Spots i fesur lles plant sy'n derbyn gofal.

Tynnodd y swyddog sylw'r Aelodau at Adran 3.1 yr adroddiad, lle nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

'Mae angen i weithwyr cymdeithasol:

- Sicrhau bod plant a phobl ifainc yn deall pwy ydyn nhw.
- Gweithio gyda phlant a phobl ifainc er mwyn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.
- Esbonio i bob plentyn pam ei fod mewn gofal, gan adolygu hyn gyda nhw yn rheolaidd er mwyn gweld a hoffen nhw dderbyn rhagor o wybodaeth.
- Parhau i gyfathrebu ag ysgolion i nodi pa blant sy'n teimlo eu bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol a pha rai sy'n teimlo nad oes ganddyn nhw ffrind da a gweithio i'w helpu nhw.
- Rhoi hyfforddiant pellach yn ymwneud â rhianta therapiwtig i gynhalwyr.
- Ystyried mwy na gweithgareddau wedi'u trefnu'n unig - gwneud cysylltiad â natur wrth adolygu cyfleoedd i gael hwyl/hobiau
- Adolygu cynlluniau cyswllt yn rheolaidd gan ystyried dymuniadau a theimladau plant a phobl ifainc
- Bod yn ymwybodol o wahaniaeth rhwng y rhywiau a rhoi cyfleoedd i bobl ifainc (11-18 oed) fagu hunan-barch a hunanddelwedd gadarnhaol.'

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod y meysydd sydd wedi'u nodi wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau gwella, a bod gan bob un ohonyn nhw'r nod o wella profiad gofal a lles y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad, gan wneud sylw am bwysigrwydd cynnwys pobl ifainc wrth wneud penderfyniadau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Gofynnodd un Aelod pa mor aml y byddai'r arolwg yn cael ei gynnal. Eglurwyd bod yr Awdurdod Lleol wedi cymryd rhan yn yr arolwg am ei fod yn rhan o fenter gan Lywodraeth Cymru, ond gan fod y canlyniadau wedi bod mor werthfawr, bydd yr arolwg yn cael ei gynnal bob dwy flynedd yn rhan o'r fframwaith cyflawniad. Felly, bydd cynnydd mewn data cymharol yn y dyfodol.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Bod y cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol y flwyddyn nesaf.

39 Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru

Cyflwynodd Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru adroddiad cynnydd y trydydd chwarter i'r Aelodau.

Cafodd yr aelodau wybod am y canlynol:

- Cafodd 54 o bobl ifainc eu cyfeirio at gymorth eiriolaeth, gan gyflwyno 67 o faterion gwahanol;
- Cafodd 25 o bobl ifainc eu cyfeirio ar gyfer Cynnig Rhagweithiol a chyfeiriwyd 29 o bobl ifainc ar gyfer Eiriolaeth sy'n Seiliedig ar Faterion;
- Derbyniodd y bobl ifainc gafodd eu hatgyfeirio am eiriolaeth yn seiliedig ar fater ymweliad wyneb yn wyneb cyn pen pum diwrnod ar ôl cael eu cyfeirio. Cynigiwyd ymweliad â'r bobl ifainc eraill o fewn pum diwrnod gwaith ond doedden nhw ddim yn gallu cwrdd â'r eiriolwr am amryw resymau, a'r rheini'n cynnwys cynhalwyr ddim yn ymateb i ymdrechion eiriolwyr i drefnu ymweliad; a
- Derbyniodd 72% o'r bobl ifainc gafodd eu hatgyfeirio ar gyfer Cynnig Gweithredol ymweliad o fewn pum diwrnod gwaith.

Roedd yr aelodau'n falch o'r adroddiad ac yn benodol, yn falch o'r cynnydd yn nifer y bobl ifainc gafodd eu hatgyfeirio ar gyfer eiriolaeth yn seiliedig ar faterion a oedd wedi derbyn ymweliad wyneb yn wyneb cyn pen pum diwrnod ar ôl cael eu cyfeirio. Roedd yr aelodau'n cydnabod nad yw pobl ifainc bob amser yn cwrdd â'r eiriolwr ac, o ganlyniad, bod modd i'r ffigurau amrywio.

Nododd yr aelodau fod gostyngiad yn yr atgyfeiriadau ar gyfer Cynnig Gweithredol yn ystod y chwarter, ond roedden nhw'n cydnabod bod cynnydd mewn atgyfeiriadau sy'n Seiliedig ar Faterion, sy'n dangos fod pobl ifainc yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth.

Bu trafodaethau ynghylch cofnodi adborth pobl ifainc, gyda'r swyddog yn egluro y byddai'n well gan bobl ifainc ddefnyddio ap yn hytrach na ffurflenni papur ac yn aml, dydyn nhw ddim yn ystyried adborth yn rhywbeth pwysig ar ôl gorffen delio â'r mater.

Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant am ap rhanbarthol, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r Gronfa Gofal Integredig. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod yr ap yn cael ei ddatblygu gan rywun sydd wedi gadael gofal, a oedd yn ymgorffori adborth Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr ap.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

40 Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gynnydd Gwasanaeth

Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd drwy ystyried yr wybodaeth gafodd ei darparu yn yr Adroddiad Blynyddol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn falch o gynghori'r Aelodau bod cydweithio yn ystod y cyfnod uchod wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan ac er bod y ffigurau yn yr adroddiad yn cael eu hystyried yn rhai cymysg, roedd y gwasanaeth yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr wybodaeth ganlynol gyda'r Aelodau:

- Bu 259 o ymholiadau gan fabwysiadwyr posibl yn ystod y flwyddyn 2018-19;
- Cofnodwyd bod gan 46% o blant ddeunyddiau taith bywyd erbyn yr ail adolygiad mabwysiadu;
- 218 oedd cyfanswm y plant a atgyfeiriwyd i'w mabwysiadu, sy'n ostyngiad ar y flwyddyn flaenorol;
- Cafodd 100 o blant eu rhoi i'w mabwysiadu yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 16% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cafodd yr aelodau wybod am grant Llywodraeth Cymru o £2.3 miliwn, gafodd ei ddyfarnu i Wasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth byddai'r grant yn cael ei ddyrannu i fentrau fel gwella gwaith taith bywyd a chymorth cyn-setlo i deuluoedd.

Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn dangos cynnydd o 7% ar y flwyddyn flaenorol o ran ymholiadau gan ddarpar fabwysiadwyr, a hynny'n dystiolaeth o gynnydd cadarnhaol yn dilyn llwyddiant penodi Cydlynnydd Marchnata a Recriwtio ym mis Awst 2018.

Bu trafodaethau ynghylch y marchnata, gydag un Aelod o'r farn ei fod yn canolbwyntio mwy ar Fro Morgannwg. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Bwrdd y byddai hynny'n cael ei ddatblygu'n rhan o waith y Cydlynnydd newydd.

Mynegodd un Aelod ei siom mewn perthynas â chanran y plant y cofnodwyd bod ganddyn nhw ddeunyddiau taith bywyd yn yr ail adolygiad mabwysiadu, a chroesawodd gyllid i wella'r ffigur hwnnw. Gofynnodd hefyd a oedd proses ar waith i sicrhau bod cysondeb yn safon llythyron 'Nes Ymlaen Mewn Bywyd'. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod pedwar Swyddog Taith Bywyd wedi'u penodi er mwyn sicrhau ei fod yn rhan hanfodol o'r gwaith a'i fod yn cael ei wneud yn brydlon; a bod Uwch Ymarferydd Mabwysiadu wedi'i benodi i hybu menter y llythyrau 'Nes Ymlaen Mewn Bywyd'.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

41 Datganiad o Fwriad Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiweddariad am Ddatganiad o Fwriad Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant a Phobl Ifainc i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol: 'Strategaeth Ranbarthol ar y cyd Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd'

Roedd yr aelodau'n falch o glywed fod y Grŵp Plant a Phobl Ifainc wedi hen ennill ei blwyf ers i'r Datganiad o Fwriad gael ei gymeradwyo. Mae'r Grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ac maen nhw wedi cydnabod yr angen i weithio'n fwy effeithiol gyda'n gilydd, i gomisiynu a darparu gwasanaethau ac i sicrhau bod llais plant a'u teuluoedd yn rhan o unrhyw brosesau neu systemau sy'n cael eu datblygu.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i siarad am y blaenoriaethau rhanbarthol canlynol, oedd wedi'u nodi er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifainc ag anghenion cymhleth yn well:

- Cyfleoedd Comisiynu Rhanbarthol
- Lles Emosiynol

Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod y llwybr cadarn i wella iechyd meddwl wedi'i grybwyll yn faes gweithredu, am i'r bobl ifainc eu hunain ei ddewis.

Dysgodd yr aelodau fod cyllid refeniw Cronfa Gofal Canolraddol wedi'i nodi ar gyfer 2019/20 a 2020/21 i gefnogi datblygiad cymorth trydydd sector a chymorth yn y gymuned i blant a phobl ifainc. Roedd yr aelodau'n falch y byddai'r Grŵp yn rhannu'u hargymhellion cyllido gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn datblygu gwasanaethau ymhellach a deall y bylchau a'r heriau yn well.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

42 Materion Brys

Gyda chytundeb y Cadeirydd, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant, ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am y pryderon amrywiol ynghylch Bwrdd Iechyd Cwm Taf, gafodd eu codi eisoes yn y cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 16 Gorffennaf 2019.

Atgoffwyd Aelodau bod swyddogion o Rondda Cynon Taf wedi cynnal gwaith ymchwil i weld a oedd unrhyw anghysonderau mewn cyngor meddygol a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd, yn dilyn problemau mewn Awdurdod Lleol cyfagos. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, nodwyd bod pedwar achos. Yn ffodus, cafodd yr achosion eu dadlau gan swyddogion Rhondda Cynon Taf yn gynnar.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth y Bwrdd fod Cynllun Gwella a Grŵp Cefnogi Cymheiriaid wedi'u sefydlu i edrych ymhellach ar yr anghysonderau meddygol a bod Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant RhCT hefyd wedi ysgrifennu at y Bwrdd Diogelu.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am

**Y Cyngorydd C Leyshon
Cadeirydd.**